OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2676

## Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau Etholiadol) 2012

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau Etholiadol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) at ddibenion trafodion sy'n rhagarweiniol i etholiad cynghorwyr neu sy'n ymwneud ag etholiad o'r fath, drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2013(**1**).

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae i "diwrnod arferol ethol cynghorwyr" yr ystyr a roddir i "ordinary day of election for councillors" gan adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**).

### Adrannau etholiadol sir Ynys Môn

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol sir Ynys Môn wedi eu diddymu.

(2) Mae'r sir wedi ei rhannu'n un ar ddeg o adrannau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn enw a restrir yng ngholofn 1 y Tabl yn yr Atodlen ac mae pob un o'r adrannau etholiadol hynny wedi ei ffurfio o'r ardaloedd presennol a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 2 y Tabl.

(3) Y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol yw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 3 y Tabl yn yr Atodlen.

### Dirymu

**3.** Mae Gorchymyn Bwrdeistref Ynys Môn-Isle of Anglesey (Trefniadau Etholiadol) 1992(**3**) wedi ei ddirymu.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru

24 Hydref 2012

(**1**) *Gweler*O.S 2012/686 (Cy.94) a oedd yn darparu y byddai etholiad cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gynnal yn 2013 yn lle 2012 ac y byddai etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd ar ôl 2013.

(**2**) 1983 p.2. Diwygiwyd adran 37 gan adran 18(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), adran 17 o Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29) ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**3**) O.S. 1992/2923. Daeth y Gorchymyn hwn i rym ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ym 1995 a gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer y prif gyngor newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)1994. Ym 1998 ni chynigiodd adroddiad y Comisiwn ar adolygu trefniadau etholiadol sir Ynys Môn unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol; ac ni wnaed unrhyw orchymyn o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwnaethpwyd rhai newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol yn y sir gan O.S.2009/367(W.37).